

Sancteiddrwydd

Darlleniad 1: Datguddiad 4

Darlleniad 2: Eseia 62

‘Bydd y dyn sanctaidd yn sanctaidd yng nghwmni’r sanctaidd a’r annuwiol.’ (Thomas Brooks)

‘O! sancteiddia f’enaid, Arglwydd,
Ymhob nwyd ac ymhob dawn.’

Dyna’n gweddi ni, Arglwydd, wrth i ni nesáu mewn llawn hyder ffydd atat Ti. Ein dymuniad yw ar i ni gael ein sancteiddio ynot Ti, oherwydd gwyddom mai i Ti yn unig y perthyn gwir sancteiddrwydd. Nid oes dim llygredig na halogedig yn perthyn i Ti; glân a phur yw dy natur a’th gymeriad ac ni elli oddef amhurdeb a bryntni. Rwyt Ti’n perthyn i’r gogoniant tragwyddol ac i’r Goleuni na ellir ei guddio, ond eto fe ddewisaist ddod atom o ganol anllygredigaeth y gogoniant i fyd llygredig; a gwneud hynny’n rasol ym Mherson Iesu Grist. Diolch i Ti am wisgo cnawd a dod atom mewn Gwardwr -

‘Er mwyn i’r brwnt gael bod yn wyn
Fel hyfryd liain main.’

Dyma yw gogoniant dy Efengyl, Arglwydd - y pur yn ymwneud â’r amhur a’r budr. Rhai felly ydym ni, O! Arglwydd. Atgoffwn ein hunain yn feunyddiol mai pridd y ddaear yw ein gwneuthuriad ac aflan yw ein cymeriad hyd nes y cyffyrddom â’th sancteiddrwydd Di drwy’r Cyfryngwr Mawr Crist Iesu. Pobl y nwydau a’r trachwantau ydym o ran naturiaeth hyd nes cyfarfod â’th lendid naturiol Di. Maddau i ni, Arglwydd, am greu llanast ac aflendid yn ein bywyd, oherwydd gwyddom yn iawn am ein diffygion personol, ein hanuwioldeb a’n hanwadalwch. Gwyddom hefyd mai ni sy’n gyfrifol am hagrwech byd a dynoliaeth. Dy ddymuniad Di yw ar i ni oll gael ein sancteiddio yn dy wirionedd. Boed i ni, felly,

gredu yn dy addewid dy fod Ti yn glanhau trwy angau'r groes a'th fod trwy nerth dy Ysbryd Glân yn sancteiddio pob credadun yn y Gwirionedd. Gallwn ninnau ategu geiriau'r emynydd sy'n dweud:

‘Dy Ysbryd sy'n goleuo,
Dy Ysbryd sy'n bywhau,
Dy Ysbryd sydd yn puro,
Sancteiddio a dyfrhau.’

Mawr ddiolch, felly, i Ti Arglwydd am y Sancteiddiwr Mawr a gaed yn dy Ysbryd Sanctaidd.

Cyflwynwn i Ti bawb sydd ymhell o'r sancteiddrwydd hwnnw. Diolch am nad oes neb ymhell o gyrraedd y Sanctaidd Un sy'n Dad, Mab ac Ysbryd Glân. Ond y mae yna rai, Arglwydd, nad ydynt wedi profi o'th gwmni na'th sancteiddrwydd. Sylweddolwn fod yna gannoedd a miloedd trwy'n byd sy'n byw yng nghanol llanast personol, hunanol ac emosiynol. Sylweddolwn fod yna eraill yng nghanol anawsterau cymhleth cymdeithasol ac yn byw.

‘Ar balmantydd oer y dref.’
Beth a wnawn ni, Arglwydd?
Dangos wnawn dosturi'r Prynwr,
Rhannwn ei drugaredd gref.’

Ac wrth wneud hynny, safwn ninnau'n gadarn fel pobl wedi derbyn y fraint o gredu ynot Ti ac o gael ein sancteiddio fel y medrwn gyflwyno sancteiddrwydd yr Arglwydd Iesu yn ein cymunedau.

‘Sanctaidd Ysbryd,
Aros mwyach gyda ni.’

Gofynnwn hyn yn enw Iesu Grist ein Ceidwad. Amen.

Iwan Ll. Jones.